Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT



©2023, Tom Lee, cedwir pob hawl

# Sut mae sefydlu a rhedeg cynllun e-feicio cymunedol

Canllaw sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect E-Symud,

Medi 2024

Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan, gan eu helpu i adfywio drwy gerdded, olwyno a seiclo i greu lleoedd iachach a bywydau hapusach i bawb. www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **5**
Pwrpas y llawlyfr hwn ..... 5
Cefndir ..... 5
Pwrpas cynllun benthyg e-feiciau neu e-feiciau cargo ..... 6

**Datblygu'r achos dros eich cynllun** ..... **7**
Cyflwyniad ..... 7
Deall anghenion lleol ..... 7
Siarad â'r gymuned ..... 8
Ariannu'n llawn ynteu ennill refeniw? ..... 9
Llunio gweledigaeth ac amcanion clir ..... 10
Llwyddiannau ..... 11

**Cyllid a chyllidebu ar gyfer eich cynllun e-feiciau** ..... **12**
Cyflwyniad ..... 12
Canfod a sicrhau cyllid ..... 12
Ffynonellau cyllid ..... 13
Pa elfennau y byddai ar gynllun e-feiciau arferol angen cyllid ar eu cyfer? ..... 16
Prif rolau a sgiliau ..... 17
Storio a chyfleusterau ..... 18
Cyllidebu mewn ffordd sy'n ymateb i rywedd ..... 18

**Rhoi Cynllun e-feiciau ar waith** ..... **20**
Cyflwyniad ..... 20

Sefydlu canolfan weithrediadau ........ 20
Dewis fflyd o feiciau ac ategolion ........ 21
Staff a chymorth gan wirfoddolwyr ........ 22
Storio’r beiciau ........ 23
Diogelwch ........ 24
Cyfathrebu a marchnata ........ 24
Archebu a rheoli’r broses o logi ........ 27
Cymorth a hyfforddiant beicio ........ 28
Canllawiau ar y camau nesaf ........ 30
Monitro defnydd ac adborth ........ 30
Dychwelyd e-feiciau a’u harchwilio ........ 32
Cynnal a chadw ........ 33
Adnoddau eraill ar gyfer buddiolwyr ........ 34

**Diogelwch ac yswiriant ........ 35**

Cyflwyniad ........ 35
Storio’n ddiogel ........ 35
Opsiynau yswiriant ........ 36
Delio ag achosion o ddwyn neu beidio â dychwelyd beic ........ 36
Atebolrwydd cyhoeddus ........ 36

**Monitro, gwerthuso a dysgu ........ 37**

Cyflwyniad ........ 37
Prosiect E-Symud Sustrans ........ 37

**Ewch amdani ........ 40**

**Atodiadau ........ 41**

Astudiaethau achos ........ 41

# Cyflwyniad

## Pwrpas y llawlyfr hwn

Bwriedir i’r llawlyfr hwn fod yn ganllaw cynhwysfawr y gall cymunedau sy’n ystyried sefydlu eu cynllun e-feiciau cymunedol eu hunain gyfeirio ato. Defnyddiwyd profiadau’r prosiect E-Symud (2021-2024) wrth ei lunio, a bydd yn eich helpu i gynllunio, lansio a rheoli rhaglen benthyg e-feiciau neu e-feiciau cargo sydd wedi’i theilwra i anghenion eich cymuned chi.

Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd o’r prosiect E-Symud wrth baratoi’r llawlyfr hwn, ac mae’n cynnig arweiniad i awdurdodau lleol neu grwpiau cymunedol sy’n awyddus i gyflwyno cynllun benthyg e-feiciau fforddiadwy a chynhwysol.

## Cefndir

Cafodd y prosiect E-Symud ei gychwyn gan Sustrans Cymru a’i ariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda’r nod o ddarparu mynediad di-dâl at e-feiciau ac e-feiciau cargo ar gyfer unigolion a oedd yn wynebu tlodi trafnidiaeth neu sefydliadau a oedd yn ceisio lleihau allyriadau carbon. Gan weithredu ar draws pum lleoliad yng Nghymru, roedd y prosiect yn cynnig y benthyciadau hyn fel ffordd o wella mynediad at addysg, cyflogaeth, mannau gwyrdd a manteision cymdeithasol eraill i unigolion a oedd yn cael trafferth symud oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus wael, diffyg cerbydau personol, oedran neu gyflyrau iechyd.



©2023, Tom Lee, cedwir pob hawl

# Pwrpas cynllun benthyg e-feiciau neu e-feiciau cargo


©2022, Tim Withers/Sustrans, cedwir pob hawl

Prif amcan cynllun benthyg e-feiciau yw rhoi cyfle i unigolion a sefydliadau, na fyddent fel arall yn cael y cyfle o bosibl, i gael gafael ar e-feiciau neu e-feiciau cargo. Dyma pam mae'r beiciau hyn yn ddewis amgen deniadol a chynaliadwy yn lle trafnidiaeth draddodiadol:

**Prif fanteision e-feiciau:**

- **Hygyrchedd: :** Mae e-feiciau'n gwneud beicio'n bosibl i ystod ehangach o unigolion, gan gynnwys y rheini sy'n cael trafferth symud. Gwelwyd o'r prosiect E-Symud, er enghraifft, fod cymorth pedlo wedi rhoi hwb i hyder menywod, gan roi iddynt ymdeimlad o ddiogelwch a rheolaeth dros eu teithiau.
- **Hwylustod:** Gyda chymorth trydanol, mae cymudo, yn enwedig dros dir bryniog neu bellteroedd hir, yn dod yn llawer haws.
- **Arbed costau:** Gall e-feiciau arbed arian ar danwydd, parcio a chynnal a chadw, o gymharu â bod yn berchen ar gar.
- **Manteision iechyd:** Er nad yw reidio e-feic mor gorfforol heriol â beicio safonol, mae e-feicio yn dal i gynnig manteision cardiofasgwlaidd, gan wella cryfder y cyhyrau a chapasiti'r ysgyfaint.
- **Effaith amgylcheddol:** Nid yw e-feiciau'n cynhyrchu allyriadau, felly maent yn ddewis amgen gwyrdd sy'n helpu i leihau llygredd aer a gwella'r amgylchedd lleol ar gyfer pobl a natur.

# Datblygu'r achos dros eich cynllun

## Cyflwyniad

Pwrpas yr adran hon yw rhoi cymorth i chi ddatblygu'r achos a chyflwyno pwrpas eich cynllun benthyg e-feiciau:

## Deall anghenion lleol

Dechreuwch drwy asesu'r galw am opsiynau trafnidiaeth cost isel yn eich cymuned. A yw tlodi trafnidiaeth yn her? A allai beicio wella mynediad at addysg, swyddi neu gyfleoedd eraill?

Dadansoddwch y dulliau trafnidiaeth sydd ar gael i'r gymuned ar hyn o bryd er mwyn canfod bylchau a gweld sut gallai cynllun e-feiciau eich helpu i gynnig dewis arall.

Ymgysylltwch â'ch cymuned i ganfod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio beic a dulliau teithio llesol. A allai cynllun benthyg e-feiciau leihau'r heriau hyn? Defnyddiwch dechnegau mapio rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r gymuned (e.e. arolygon a phôl piniwn) i gasglu gwybodaeth.

**Mapio rhanddeiliaid**

Meddyliwch am unigolion a sefydliadau allweddol a allai gefnogi eich prosiect, fel awdurdodau lleol, busnesau, elusennau, ysgolion a swyddogion etholedig. Cadwch gofnod manwl a byw o'r cysylltiadau a'r ymdrechion cyfathrebu hyn. Dylai'r daenlen hon gofnodi cysylltiadau allweddol a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

# Siarad â'r gymuned


©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

Ar ôl i chi fapio rhanddeiliaid, dylech ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned. Y trigolion yw'r arbenigwyr ar anghenion lleol, ac mae eu mewnbwn yn amhrisiadwy.

**Ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned:**

- **Digwyddiadau wyneb yn wyneb:** Cynhaliwch gyfarfodydd cymunedol mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, neu fannau cyhoeddus lle mae nifer yr ymwelwyr yn uchel.
- **Ymgysylltu rhithiol:** Gall sesiynau ar-lein gynyddu cyfranogiad, a denu pobl sydd ddim yn gallu mynd i rywle'n bersonol.
- **Treialon e-feiciau:** Os oes modd, cynigiwch arddangosiadau a chyfleoedd i roi cynnig arni er mwyn ennyn diddordeb defnyddwyr posibl.

**Sicrhau cynwysoldeb**

Er mwyn sicrhau bod eich gweithgareddau ymgysylltu yn cynrychioli pob demograffeg, ystyriwch y canlynol:

- **Cymhellion:** Gall cynnig iawndal gynyddu cyfranogiad, gan wneud yn siŵr nad yw cyfyngiadau ariannol yn eithrio aelodau'r gymuned.
- **Trefniadau hyblyg:** Cynhaliwch sesiynau ar wahanol ddiwrnodau ac amseroedd i gyd-fynd ag amserlenni amrywiol, gan gynnwys gweithwyr shifft a gofalwyr.
- **Hysbysebion wedi'u targedu:** Hyrwyddwch sesiynau drwy bartneriaid cymunedol dibynadwy a hysbysebu'n lleol i gyrraedd cynulleidfa eang.

# Ariannu'n llawn ynteu ennill refeniw?

Fel gwasanaeth cymunedol, a fydd eich cynllun yn cynnig beiciau i'w benthyg heb gost, ynteu a fyddwch chi'n codi ffi am logi beic?

Roedd prosiect E-Symud Sustrans yn darparu sesiynau blasu rhad ac am ddim i roi profiad hygyrch i ddefnyddwyr o fanteision E-Feiciau ac E-Feiciau Cargo. Fodd bynnag, mae cynlluniau benthyg e-feiciau eraill wedi codi tâl bychan i ddefnyddwyr am logi beic.

Gall y refeniw a gynhyrchir drwy weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd fod yn ffynhonnell incwm gynaliadwy a sicrhau bod cynllun benthyg beic yn cael cefnogaeth barhaol er mwyn iddo allu parhau i'r dyfodol.

**Cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor**

- **Cynnal a chadw a gweithredu:** Trafodwch sut bydd y cynllun yn cael ei gynnal a'i weithredu dros amser, gan gynnwys pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r e-feiciau a sut bydd arian yn cael ei ddyrannu.

# Llunio gweledigaeth ac amcanion clir

Gyda'r data rydych chi wedi'i gasglu a'ch dealltwriaeth fanwl o'r gymuned leol a sut byddai cynllun e-feiciau yn helpu i wella opsiynau trafnidiaeth lleol, gosodwch dargedau clir i chi eich hun ar gyfer y cynllun.

- **Datganiad o weledigaeth:** Datblygwch ddatganiad o weledigaeth sy'n glir ac yn cyfleu pwrpas a dyheadau'r cynllun e-feiciau.
- **Amcanion CAMPUS:** Sefydlwch amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS) ar gyfer y prosiect i arwain y gwaith o ddatblygu a gwerthuso.

**Ystyried ffurfio gweithgor neu bwyllgor.**

- Dylai **Bwrdd Cynghori** gynrychioli amrywiaeth y gymuned, gan gynnwys rhanddeiliaid sydd ag arbenigedd mewn teithio llesol, polisïau a thegwch cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys eiriolwyr dros gydraddoldeb rhywedd ac anabledd, cynrychiolwyr cymunedol, arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd, a chynghorwyr amgylcheddol. Gallech hefyd ystyried arbenigwyr cyllid i gefnogi'r gwaith cyson o ddatblygu modelau cyllido cynaliadwy, ac arbenigwyr data i helpu i siapio a monitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn effeithiol.
- Roedd meithrin perthynas gyda mudiadau cymunedol lleol sefydledig yn hanfodol i lwyddiant y prosiect E-Symud. Drwy gydweithio â Byddin yr Iachawdwriaeth a'r Groes Goch yn y Rhyl, cafwyd cyfle i gyrraedd pobl a allai fod wedi bod yn anodd eu cyrraedd yn annibynnol. Roedd y bartneriaeth hon yn meithrin ymddiriedaeth rhwng Sustrans a'r buddiolwyr ac yn helpu i flaenoriaethu ymgeiswyr addas ar gyfer y rhaglen.



©2024, Erika Stevenson, cedwir pob hawl

# Llwyddiannau

Gall defnyddio astudiaethau achos i ddangos cynlluniau e-feiciau llwyddiannus ddangos effeithiolrwydd rhaglenni tebyg ac ennyn hyder rhanddeiliaid.

**Stori Gemma: Sut mae e-feiciau wedi newid teithio ein teulu**

Roedd Gemma Loveless, un o drigolion Y Barri, wedi bod eisiau rhoi cynnig ar e-feiciau ar ôl clywed am y prosiect E-Symud a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru mewn digwyddiad i'r cyngor lleol. Arweiniodd cyfarfod munud olaf gydag un o swyddogion prosiect Sustrans Cymru at Gemma a'i theulu yn profi e-feic am y tro cyntaf. Yma, mae hi'n dweud wrthym sut aeth hi.

**Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn fy nghymuned trwy deithio llesol: Stori Hannah**

Yn y blog gwadd yma, rydym yn clywed oddi wrth Hannah am ei phrofiad hi o fenthyg e-feic am ddim am fis i gymudo i'r gwaith, mynychu apwyntiadau ysbyty, ac i wella ei ffitrwydd. Trwy ein prosiect E-Symud a ariannir gan Lywodraeth Cymru, helpodd Hannah, o Abertawe, i arwain gan esiampl ar gyfer y cymunedau yn ei hardal gan annog teithio llesol.

**Y busnes ar gefn beic yn Aberystwyth gydag uchelgeisiau mawr**

Sefydlodd Sally ei busnes, Y Beic Chai, ar ôl benthyg e-feic cargo drwy brosiect E-Symud Sustrans a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Trwy werthu Masala chai cartref o'i e-feic cargo, mae Sally ar genhadaeth i gysylltu â chymuned Aberystwyth.



©2022, Gemma Loveless/Sustrans, cedwir pob hawl



©2023, Hannah Sabatia/Sustrans, cedwir pob hawl



©2024, Sally Pierse/Sustrans, cedwir pob hawl

# Cyllid a chyllidebu ar gyfer eich cynllun e-feiciau

## Cyflwyniad

Nawr eich bod wedi datblygu'r achos, mae'n amser ystyried cyllid.

## Canfod a sicrhau cyllid

Bydd anghenion cyllid eich cynllun yn dibynnu ar faint a chwmpas eich cynllun. Efallai mai dim ond grant un-tro y bydd ei angen ar raglen fach sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ond efallai y bydd angen cyllid am sawl blwyddyn ar gynllun mwy, sy'n fwy cymhleth.

Mae rhaglenni'r llywodraeth a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn aml yn cyd-fynd â thargedau fel lleihau allyriadau, gwella iechyd a hyrwyddo teithio cynaliadwy. Ar wahân i'r prosiect E-Symud a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae nifer o enghreifftiau da o brosiectau E-Feiciau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae treial e-feiciau Sir Benfro – a ariennir gan Fetro Bae Abertawe a De-orllewin Cymru gyda buddsoddiad o £150,000 – yn enghraifft ranbarthol ddiweddar. Mae'r treial wedi'i ddylunio i annog preswylwyr i gyfnewid teithiau byr yn y car am deithiau ar e-feic, gan gefnogi nodau amgylcheddol lleol a gwella mynediad ar draws pedair tref: Hwlffordd, Abergwaun, Wdig a Dinbych-y-pysgod.

Yng Nghasnewydd, De Cymru, mae The Gap, gyda chymorth Spokesafe, wedi ehangu'r defnydd o hyb beiciau diogel sy'n cael ei ariannu drwy Gomisiwn Burns i ddarparu gwasanaeth llogi E-Feiciau Cargo cymunedol. Yn ogystal, fe wnaeth cynllun Casnewydd



©2023, Tom Lee, cedwir pob hawl

ddefnydd da o gyfuno cymorth gan gynghorau lleol â ffynonellau cyllido ehangach. Yn yr achos hwn, ymgyrch adfywio Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer canol y ddinas, a oedd yn agor adeiladau yng nghanol y ddinas nad oedd yn cael eu defnyddio'n ddigonol at ddibenion eraill am gost isel.


©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

## Ffynonellau cyllid

### Nawdd corfforaethol

Gall nawdd corfforaethol chwarae rhan ddefnyddiol yn eich proffil cyllido. Gall corfforaethau mawr sydd â diddordeb mewn cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol neu gyfleoedd marchnata gynnig nawdd ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd ag effaith gymunedol a gwerth cymdeithasol.

Gall nawdd corfforaethol chwarae rhan ddefnyddiol yn eich proffil cyllido. Gall corfforaethau mawr sydd â diddordeb mewn cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol neu gyfleoedd marchnata gynnig nawdd ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd ag effaith gymunedol a gwerth cymdeithasol.

### Ymddiriedolaethau a sefydliadau

Un llwybr i'w archwilio pan ddaw'n fater o ariannu hyb beicio yw Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Oherwydd bod pob Sefydliad/Ymddiriedolaeth Elusennol yn wahanol, nid oes un dull penodol sy'n addas i bawb. Ceir amrywiaeth o wahanol fathau o Ymddiriedolaethau elusennol:

- **Ymddiriedolaethau teulu:** Y rheini sydd wedi cael eu cychwyn gan aelodau o deulu ac a sefydlwyd i rannu rhoddion personol teuluoedd. E.e., Ymddiriedolaeth y Teulu Sainsbury. https://www.sfct.org.uk

- **Ymddiriedolaethau cwmni (corfforaethol):** Bydd sefydliadau corfforaethol yn rhoi arian i fudiadau elusennol o elw'r cwmni. E.e., Sefydliad Santander a Sefydliad Asda
  **Sefydliad Santander:** https://www.santanderfoundation.org.uk
  **Sefydliad Asda:** https://www.asdafoundation.org
- **Ymddiriedolaethau preifat:** Bydd ymddiriedolaethau a sefydliadau preifat yn cynhyrchu cyllid o incwm preifat, a godir fel arfer drwy fuddsoddiadau. Byddant wedyn yn rhoi llog i fudiadau elusennol ar ffurf grant.
  **Sefydliad Wolfson:** www.wolfson.org.uk
- **Sefydliadau cymunedol:** Mae 46 o sefydliadau cymunedol ledled y DU sy'n cysylltu rhoddwyr â grwpiau lleol ac yn datblygu potiau gwaddol i ddyfarnu grantiau dros gyfnodau hwy. Yn 2014/15, rhannodd sefydliadau cymunedol werth £65 miliwn o grantiau.
- **Sefydliad Cymunedol Cymru:**
  https://communityfoundationwales.org.uk/grants-overview

**Cyllid torfol**

Gall cyllido torfol (crowdfunding) fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer ariannu prosiectau cymunedol, gan alluogi cymunedau i roi arian yn uniongyrchol i gefnogi cynlluniau y maent yn eu gwerthfawrogi. Mae llwyfannau fel Spacehive a Crowdfunder UK yn darparu opsiynau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer cymunedau, ac yn aml yn cynnig cyllid cyfatebol.

- **Spacehive:** https://www.spacehive.com
- **Crowdfunder UK:** https://www.crowdfunder.co.uk

**Arian y Loteri**

Mae loterïau'n cynnig amrywiaeth eang o grantiau, yn amrywio o hyd at £10,000 i gyllid cyfalaf mwy dros nifer o flynyddoedd, a allai dalu am gost offer a chymorth gweithredol.

- **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol:**
  https://www.tnlcommunityfund.org.uk - Mae'n cynnig cyllid i brosiectau sy'n gwella iechyd, lles a mynediad o fewn cymunedau.
- **Arian i Bawb:**
  https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales – Rhaglen grantiau cyflym gyda chyllid o £300 i £20,000 ar gyfer prosiectau sy'n cael eu harwain gan gymunedau.
- **Pawb a'i Le**
  Mae **Rhaglen Pawb a'i Le Loteri Cymru** yn cynnig grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n gwella lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd. Mae dwy lefel:

  **Grantiau canolig:** Rhwng £10,001 a £100,000 i gefnogi prosiectau sy'n creu effaith ystyrlon mewn cymunedau.

  **Grantiau mwy:** Rhwng £100,001 a £500,000 ar gyfer cynlluniau hirdymor mawr sy'n hyrwyddo cydlyniant a datblygiad.

  https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/people-and-places-medium-and-large-grants

**Adnoddau defnyddiol:**

- Cyllido Cymru: Edrychwch ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael https://funding.cymru



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

# Pa elfennau y byddai ar gynllun e-feiciau arferol angen cyllid ar eu cyfer?

**Beiciau ac ategolion**

Y gost gychwynnol fwyaf fydd prynu eich fflyd o e-feiciau a'ch ategolion. Mae hyn yn debygol o gynnwys cloeon drud o safon uchel sy'n cydymffurfio ag yswiriant a dyfeisiau tracio GPS hyd yn oed. Caniatewch hyblygrwydd yn eich cyllideb ar gyfer anghenion annisgwyl nad ydych chi wedi'u rhagweld. Byddai cael swm wrth gefn o fewn eich cyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn syniad da. Er enghraifft, yn y prosiect E-Symud, arweiniodd y galw mawr am feiciau cludo plant at brynu seddi plant a dillad tywydd gwlyb ychwanegol.

**Costau parhaus**

Dyma rai o'r costau rheolaidd i'w hystyried:

- **Storio:** Ble fydd y beiciau'n cael eu cadw?
- **Yswiriant:** Pa lefel o yswiriant fydd ei hangen arnoch ar gyfer lladrad, difrod neu ddamweiniau?
- **Marchnata a chyfathrebu:** Sut bydd pobl yn clywed am gyfleoedd eich cynllun?
- **Cynnal a chadw:** Bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw fel bo'r angen ar e-feiciau yn ogystal â diweddaru meddalwedd.
- **Systemau archebu:** System effeithlon i reoli ceisiadau am fenthyciadau ac olrhain defnydd.
- **Cyfarpar wedi'i ddwyn neu ei golli:** Cynlluniwch ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel ategolion yn mynd ar goll neu feiciau'n cael eu dwyn.

- **Gwefru:** Ystyriwch ble fydd yr e-feiciau'n cael eu gwefru—boed hynny drwy hyb canolog gyda gorsafoedd gwefru pwrpasol, mewn cyfleusterau cyhoeddus, neu yng nghartrefi'r buddiolwyr.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

**Refeniw**

Os yw'r cynllun yn cynnig ariannu staff i reoli a rhedeg y prosiect, bydd angen cyllid refeniw. Wrth gyfrifo costau refeniw, dylech ystyried swyddfa, cyfrifiaduron ac unrhyw bethau eraill sydd eu hangen ar staff i wneud eu gwaith o ddydd i ddydd.

## Prif rolau a sgiliau

Penderfynwch pa rolau a sgiliau allweddol fydd eu hangen i redeg eich prosiect yn llwyddiannus. Ai gwirfoddolwyr ynteu staff cyflogedig fydd yn gwneud hyn – neu gyfuniad o'r ddau. Bydd gan bob dewis oblygiadau i gynaliadwyedd eich prosiect.

- **Tasgau arferol:** Mae tasgau arferol yn cynnwys:
    - Hyfforddiant
    - Gwaith glanhau a chynnal a chadw sylfaenol ar yr e-feiciau
    - Rheoli'r storfa a'r stocrestr
    - Delio â systemau archebu a chyfathrebu â defnyddwyr
    - Rheoli'r cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu
    - Cydlynu sesiynau cynefino defnyddwyr a chadw golwg ar waith gwasanaethu ac yswiriant e-feiciau
    - Monitro cyllid y prosiect ac adrodd yn ôl arno fel bo'r angen

# Storio a chyfleusterau

Mae'n hanfodol storio e-feiciau'n ddiogel. Bydd angen man diogel arnoch hefyd i gynnal sesiynau cynefino ac asesu gallu'r defnyddwyr i feicio. Mae asedau ffisegol eraill yn cynnwys:

- E-feiciau ac ategolion
- Unedau storio
- Mannau diogel neu leoedd lle nad oes llawer o draffig i gynnal sesiynau cynefino.

# Cyllidebu mewn ffordd sy'n ymateb i rywedd

Wrth gynllunio eich cyllideb, defnyddiwch **ddull sy'n ymateb i rywedd.** Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod eich cynllun e-feiciau'n dosbarthu adnoddau'n deg ac yn dwyn budd i bob rhywedd. Gall cyllideb sy'n ymateb i rywedd helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a meithrin cynhwysiant mewn cynllun cymunedol.

**Cyllidebu ar sail rhyw yng nghyd-destun E-Symud**
Ar gyfer y prosiect E-Symud, roedd cyllidebu ar sail rhyw yn golygu archwilio sut gellid dyrannu adnoddau i wneud e-feiciau'n hygyrch i'r rheini a fyddai fel arall yn wynebu rhwystrau ar sail rhywedd. Yn draddodiadol, gall anghenion symudedd menywod fod yn wahanol. Er enghraifft, byddant yn tueddu i wneud nifer o deithiau byr ar gyfer dyletswyddau sy'n ymwneud â gwaith, y teulu neu ofalu, ac maent yn tueddu i wynebu mwy o ansicrwydd o ran trafnidiaeth. Drwy ddefnyddio dull cyllidebu ar sail rhyw, fe wnaeth y prosiect E-Symud ystyried y ffactorau hyn, gan ddyrannu adnoddau i gael modelau e-feiciau amrywiol, sydd weithiau'n ysgafnach, a darparu mesurau cefnogol fel seddi plant a hyfforddiant cymunedol.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

Un peth pwysig arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod diogelwch gwirioneddol ac ymddangosiadol mewn mannau cyhoeddus yn dylanwadu ar sut mae menywod yn cael eu gweld o safbwynt beicio. Yn sgil hyn, darparodd E-Symud adnoddau i gynnig systemau cyfeillio ac arwain teithiau, gan roi hwb i ddiogelwch a hyder, yn enwedig i fenywod a oedd yn teimlo'n fregus wrth feicio ar eu pen eu hunain.

Gellir addasu gwaith cyllidebu sy'n ymateb i rywedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau y tu hwnt i rywedd, fel y rheini sy'n ymwneud â hil, anabledd, oed a statws economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, gall fframweithiau cyllidebu sy'n ymateb i rywedd integreiddio ystyriaethau ar gyfer unigolion ag anableddau drwy ddyrannu adnoddau ar gyfer seilwaith, neu raglenni hygyrch sy'n mynd i'r afael â rhwystrau economaidd a wynebir gan grwpiau incwm isel.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y canllaw ar gyllidebu sy'n ymateb i rywedd gan y **Women's Budget Group ac Oxfam** https://policy-practice.oxfam.org/resources/rough-guide-to-gender-responsive-budgeting-620429/

# Rhoi Cynllun e-feiciau ar waith

## Cyflwyniad

Mae angen gwneud gwaith cynllunio a chyflwyno gofalus wrth roi cynllun benthyg e-feiciau ar waith i wneud yn siŵr bod popeth yn rhedeg yn esmwyth, o'r camau cychwynnol o sefydlu'r cynllun i'r gwaith o'i reoli. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau ymarferol, gan gynnwys dewis canolfan weithredol, trefnu logisteg, datblygu strategaethau cyfathrebu, a chreu proses ar gyfer archebu a rheoli'r dasg o logi'r e-feiciau.

## Sefydlu canolfan weithrediadau

Gall y lleoliad hwn fod yn rhywle ar gyfer storio, cynnal a chadw a dosbarthu e-feiciau, yn ogystal ag ar gyfer staff sy'n gweithio ar y cynllun. Wrth feddwl am E-Symud, roedd y lleoliadau'n amrywio o ganolfannau cymunedol i unedau hunan-storio. Ewch ati i bwyso a mesur yr opsiynau yn eich ardal chi, gan gadw costau mewn cof.

**Ystyriaethau lleoliadau**

- **Hygyrchedd:** Dylai'r lleoliad fod yn hwylus iawn i'ch cynulleidfa darged, yn ddelfrydol mewn ardaloedd prysur neu heb fod yn bell oddi wrthynt, fel canolfannau cymunedol, a dylid cael cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da wrth law.
- **Gwelededd:** Gall fod yn ddefnyddiol dewis lleoliad sy'n hawdd ei weld i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog pobl i gofrestru. Beth am ystyried cydweithio â busnesau



©2023, Tom Lee, cedwir pob hawl

neu sefydliadau lleol i ddod o hyd i leoliad  sy'n sefyll allan?

- **Diogelwch:** Dylai defnyddwyr deimlo'n ddiogel wrth fynd i mewn i ganolfan storio, yn enwedig yn gynnar yn y bore neu gyda'r nos pan fydd hi'n anoddach gweld a phan nad oes llawer o bobl o gwmpas.
- **Agosrwydd at lwybrau beicio:** Mae'n fuddiol os yw'r cynllun yn agos at seilwaith beicio amlwg, fel llwybrau beicio cenedlaethol, er mwyn annog mynediad hawdd a defnydd diogel o'r e-feiciau.
- **Datblygu seilwaith:** Gan ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr, meddyliwch a oes cyfleoedd i weithio gyda'ch awdurdod lleol i nodi cynigion i wella'r rhwydwaith a'r seilwaith lleol?



©2022, Rik Mowbray/Sustrans, cedwir pob hawl

## Dewis fflyd o feiciau ac ategolion

Wrth ddewis e-feiciau, meddyliwch am wahanol anghenion a chyfyngiadau ffisegol. Er enghraifft:

- **Beiciau camu drwy'r canol:** Mae'r rhain yn ddelfrydol ar gyfer defnyddwyr sydd â phroblemau symudedd neu unigolion sy'n gwisgo dillad cyfyngol am resymau crefyddol.
- **Beiciau ysgafn:** Mae'r rhain yn helpu amrywiaeth ehangach o feicwyr i drin, parcio a storio'r beiciau'n rhwydd.
- **Beiciau plygu:** Mae'r rhain yn ddefnyddiol i unigolion heb lawer o le i storio.
- **Beiciau cargo:** Mae beiciau sy'n gallu cario llwyth yn wych ar gyfer cludo plant neu nwyddau.
- **Beiciau addasol:** Mae treiciau a beiciau addasol eraill yn gwella cynhwysiant i unigolion ag anableddau.

### Cost ac ansawdd

Dylid cynnwys e-feiciau o safon uchel sydd ddim yn rhy ddrud – rhai gwydn iawn sy'n cyrraedd safonau diogelwch uchel. Fodd bynnag, dylid ystyried cost beiciau unigol. Mae'n bwysig cynnwys dewisiadau rhatach i sicrhau nad ydych chi'n atgyfnerthu'r syniad bod e-feiciau'n rhy ddrud ac allan o gyrraedd llawer o bobl.

### Ategolion

Yn ogystal ag e-feiciau, ystyriwch ategolion hanfodol a fydd yn gwneud beicio'n ymarferol i'ch defnyddwyr:

- **Seddi plant**
- **Raciau dal beic**
- **Giardiau olwynion** i'w hamddiffyn rhag y tywydd
- **Goleuadau** ar gyfer diogelwch, yn enwedig os nad oes rhai wedi'u hadeiladu'n rhan o'r e-feic ei hun
- **Basgedi** neu **raciau cargo** i gario pethau
- **Cloeon:** Gwnewch yn siŵr bod cloeon diogelwch da ar bob beic (Sold Secure Aur) fel nad oes neb yn gallu eu dwyn
- **Pecynnau cymorth** i drwsio twll yn yr olwyn a gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol.


©2024, Katherine Torres Davies, cedwir pob hawl

## Staff a chymorth gan wirfoddolwyr

Er mwyn rhedeg cynllun e-feiciau o ddydd i ddydd, bydd angen staff, ac mewn rhai achosion, gwirfoddolwyr.

- **Anghenion staffio:** Nodwch rolau ar gyfer rheoli'r broses archebu, goruchwylio'r gwaith o gasglu a dychwelyd beiciau, cynnal a chadw beiciau, a delio ag ymholiadau cwsmeriaid.
- **Rôl gwirfoddolwyr:** Beth am ystyried cynnwys gwirfoddolwyr lleol i gefnogi digwyddiadau, helpu gyda gwaith cynnal a chadw, neu arwain teithiau beicio ar gyfer defnyddwyr newydd.

Bydd buddsoddi mewn hyfforddiant staff, yn enwedig hyfforddiant cynnal a chadw e-feiciau a gwasanaeth i gwsmeriaid, yn gwella boddhad defnyddwyr a llwyddiant hirdymor y cynllun.


©2024, Sustrans, cedwir pob hawl

## Storio'r beiciau

- **Cyfleusterau storio diogel:** Bydd angen storfa saff a diogel ar gyfer yr e-feiciau. Mae'n rhaid cael cyfleuster y gellir ei gloi – un sy'n gallu gwrthsefyll y tywydd ac sy'n ddigon mawr i storio'r beiciau i gyd. Gwnewch yn siŵr bod digon o le ar gyfer nôl y beiciau a'u dychwelyd yn rhwydd.
- **Mannau gwefru:** Bydd angen gwefru e-feiciau'n rheolaidd, felly mae'n rhaid i'r cyfleuster storio gael mannau pŵer digonol ar gyfer gwefru mwy nag un beic ar y tro.
- **Ardal cynnal a chadw:** Ystyriwch neilltuo lle ar gyfer gwaith atgyweirio sylfaenol, glanhau a gwasanaethu'r beiciau.
- **Y gallu i dyfu:** Ceisiwch wneud yn siŵr bod elfen o hyblygrwydd yn eich cynllun, gyda seilwaith y gellid ei ehangu'n gymharol hawdd. Er enghraifft, gellid defnyddio elfennau modiwlaidd, a fyddai'n addas ar gyfer fflyd sy'n newid, beiciau cargo, neu wahanol fathau o e-feiciau wrth i anghenion y gymuned esblygu.

# Diogelwch

- **Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) a monitro:** Dylid ystyried mesurau diogelwch fel camerâu CCTV, systemau larwm, a chloeon cryf er mwyn gwneud yn si r nad yw'r e-feiciau'n cael eu dwyn na'u difrodi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- **Yswiriant:** Gwnewch yn siŵr bod gennych lefelau yswiriant priodol ar gyfer lladrad, difrod ac atebolrwydd trydydd parti am yr e-feiciau sydd wedi'u storio.



©2023, Tom Lee, cedwir pob hawl

# Cyfathrebu a marchnata

Mae datblygu ymwybyddiaeth ynghylch eich cynllun e-feiciau, a chreu dipyn o gyffro am y peth, yn hanfodol i'w lwyddiant. Bydd strategaeth gyfathrebu a marchnata sydd wedi'i chynllunio'n ofalus yn helpu i ennyn diddordeb, annog cyfranogiad, a chynnal cysylltiadau hirdymor.

**Cynulleidfa darged**

Nodwch eich defnyddwyr targed a theilwra eich prosesau cyfathrebu yn unol â hynny. Fel arfer, bydd y rhain yn cynnwys:

- **Rhieni a theuluoedd:** Amlbwrpas, gallu danfon plant i'r ysgol, siwrneiau dyddiol byr a siopa, heb yr angen am gar.
- **Busnesau lleol:** Gallu dosbarthu nwyddau'n effeithlon, gwneud negeseuon, a ffordd i'r gweithwyr fynd i'r gwaith. Llai o angen am barcio, a'r ddelwedd brand gadarnhaol sy'n gysylltiedig â chefnogi opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- **Cymudwyr:** Hyrwyddo'r cynllun fel ateb i leihau dibyniaeth ar geir a gwella iechyd.

- **Preswylwyr ar incwm isel:** Gwerthu'r cynllun fel ffordd o leihau tlodi trafnidiaeth a gwella mynediad at waith a gwasanaethau.

### Sianeli marchnata

- **Cyfryngau cymdeithasol:** Defnyddiwch lwyfannau fel Facebook, Instagram a Twitter i rannu diweddariadau, llwyddiannau a digwyddiadau sy'n rhoi cyfle i dreialu e-feiciau. Gallech greu cynnwys diddorol, fel tystebau defnyddwyr, fideos a ffeithluniau i ddangos manteision y cynllun.
- **Y wasg a'r cyfryngau:** Cysylltwch â phapurau newydd lleol, gorsafoedd radio a gwefannau newyddion i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a'i fanteision i'r gymuned.
- **Taflenni a phosteri:** Dosbarthwch ddeunyddiau hyrwyddo mewn canolfannau lleol, fel llyfrgelloedd, ysgolion, canolfannau cymunedol a chaffis. Gwnewch yn siŵr bod y deunyddiau hyn yn egluro'r manteision yn glir ac yn dweud sut mae cofrestru.
- **Cylchlythyron ar e-bost:** Crëwch restr e-bost ac anfon diweddariadau'n rheolaidd, gan hyrwyddo mentrau newydd, argaeledd e-feiciau, a straeon llwyddiant gan gyfranogwyr.
- **Gwefan ac ap:** Datblygwch wefan neu ap hwylus ar gyfer y cynllun, lle gall defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth, archebu e-feiciau, a gweld manteision defnyddio e-feiciau.
- **Lledaenu'r neges:** Anogwch ddefnyddwyr y cynllun i rannu eu profiadau cadarnhaol gyda ffrindiau a theulu.

### Digwyddiad lansio

Cynlluniwch ddigwyddiad lansio cyhoeddus i gyflwyno'r cynllun i'r gymuned. Dylai hyn gynnwys:

- **Arddangos yr e-feiciau:** Darparwch dreialon e-feiciau a dangos sut i'w defnyddio.



©2016, Ruth Stafford, cedwir pob hawl

- **Sesiynau holi ac ateb:** Rhowch gyfle i ddarpar ddefnyddwyr ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynllun.
- **Cyhoeddiadau am bartneriaethau:** Ceisiwch gynnwys busnesau a rhanddeiliaid lleol yn y lansiad i roi hwb i hygrededd.

Gall digwyddiadau rheolaidd ar ôl y lansiad – a'r rheini'n cynnwys defnyddwyr sydd wedi bod yn hapus iawn â'r e-feiciau – fod yn adnodd hyrwyddo defnyddiol iawn. Bydd y digwyddiadau hyn yn galluogi defnyddwyr presennol i rannu eu profiadau cadarnhaol yn uniongyrchol, gan helpu eraill i ddeall manteision y cynllun iddyn nhw.

**E-feiciau anghyfreithlon – mynd i'r afael â barn negyddol am e-feiciau**

Gall e-feiciau anghyfreithlon, sy'n aml yn cael eu haddasu i fynd dros derfynau cyflymder cyfreithlon, neu sydd ddim yn cynnwys nodweddion diogelwch priodol, gyfrannu at ddamweiniau a gwneud i bobl feddwl nad yw e-feiciau'n ddiogel o gwbl neu'u bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd anghyfrifol. Gall y ddelwedd hon fod yn rhwystr sy'n atal pobl rhag eu derbyn.

I fynd i'r afael â hyn, gwnewch yn siŵr bod eich cynllun yn tynnu sylw at y ffaith eich bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r DU, yn enwedig o ran terfynau cyflymder a phryd mae'r cymorth modurol yn stopio. Cofiwch gyfleu'n glir fod eich e-feiciau chi wedi'u hardystio a'u profi a'u bod yn bodloni safonau diogelwch yn llawn.

Mae problemau diogelwch difrifol ynghlwm wrth fatris sydd ddim wedi cael eu hardystio gan eu bod yn gallu achosi tân. Ceir adroddiadau fod e-feiciau anghyfreithlon, yn enwedig rhai sy'n cynnwys batris wedi'u prynu o ffynonellau heb eu rheoleiddio neu wedi'u haddasu i ragori ar eu manylebau gwreiddiol, yn gallu gorboethi a mynd ar dân.

Pwysleisiwch mai dim ond batris ardystiedig sydd wedi'u profi i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac sy'n bodloni holl safonau diogelwch y DU a'r UE y mae eich cynllun e-feiciau chi yn eu defnyddio.

Gall cynnig gweithdai cymunedol neu sesiynau gwybodaeth hefyd helpu i addysgu defnyddwyr am arferion reidio diogel a'r gwahaniaethau rhwng e-feiciau cyfreithlon ac anghyfreithlon.

# Archebu a rheoli'r broses o logi

Mae systemau effeithlon a hawdd eu defnyddio ar gyfer archebu, rheoli a thracio benthyciadau e-feiciau yn hanfodol i lwyddiant y cynllun.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses – o archebu e-feic i'w ddychwelyd ar ôl ei ddefnyddio.

**System archebu e-feiciau**

Ar gyfer y prosiect E-Symud, defnyddiwyd cyfuniad o gyfeiriadau uniongyrchol gan y cyhoedd a chyfeiriadau gan sefydliadau. Dewiswch y system fwyaf priodol ar gyfer eich cymuned chi.

- **Archebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn:** Gall proses archebu uniongyrchol fod yn fwy hwylus i'r rheini sydd ddim yn teimlo mor gyfforddus yn defnyddio systemau ar-lein. Gall staff yn y ganolfan weithredol helpu defnyddwyr i archebu beiciau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- **Platfform archebu ar-lein:** Gall platfform digidol fod yn ffordd gyfleus ac effeithlon i ddefnyddwyr archebu e-feic. Gallai platfform alluogi defnyddwyr i wneud y canlynol:
    - Gweld y beiciau sydd ar gael ar y pryd
    - Dewis beic ar gyfer y slot amser o'u dewis
    - Cofrestru i gael benthyg beic a llenwi'r ffurflenni gofynnol yn ddigidol


©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

- Gosod nodiadau atgoffa a hysbysiadau ar gyfer amseroedd casglu a dychwelyd

**Y Broses ar gyfer casglu e-feiciau**

- **Cofrestru ar ôl cyrraedd:** Ar ôl cyrraedd, dylai'r defnyddiwr gofrestru ag aelod o staff neu drwy ap i gasglu'r beic. Dylai'r staff gadarnhau pwy ydynt, taro golwg ar y beic i wneud yn siŵr ei fod yn iawn a mynd drwy'r prif weithdrefnau diogelwch.
- **Cyfrifoldebau defnyddwyr:** Dylai'r defnyddiwr fod yn gyfrifol am sicrhau diogelwch y beic, ac am feicio mewn ffordd gyfrifol, tra bydd y beic ar fenthyg (e.e. sicrhau bod y brêcs yn gweithio). Eglurwch y cyfrifoldeb hwn yn ystod y sesiynau cynefino ac yn y cytundeb ar gyfer y benthyciad.
- **Helmed ac ategolion:** Rhowch helmedau ac unrhyw ategolion eraill, fel cloeon a goleuadau, i'r defnyddwyr fel rhan o'u pecyn. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r eitemau hyn yn ddiogel.

**Cytundeb benthyg a chofrestru defnyddwyr**

Cyn y gall defnyddiwr fenthyg e-feic, dylai wneud y canlynol:

- **Llenwi ffurflen cofrestru defnyddiwr:** Casglwch fanylion fel enw a manylion cyswllt a manylion adnabod.
- **Llofnodi cytundeb benthyg:** Dylai hwn amlinellu'r telerau defnyddio, gan gynnwys am faint fydd y beic ar fenthyg, cyfrifoldebau'r defnyddiwr, ac unrhyw gosb bosibl am ddifrod neu ddychwelyd yr e-feic yn hwyr neu ddifrod.



©2024, Paul Thomas, cedwir pob hawl

# Cymorth a hyfforddiant beicio

Ar gyfer y rheini fydd yn defnyddio un o'r e-feiciau am y tro cyntaf, dylai sesiwn gynefino fod yn orfodol, a dylai hynny gynnwys taith brawf, hyfforddiant diogelwch, ac arweiniad

ynghylch sut i ddefnyddio'r e-feic a gofalu amdano'n briodol. Dylai hyn gynnwys rhywfaint o waith cynnal a chadw sylfaenol fel trwsio twll a newid teiar.

- **Hyfforddiant beicio:** Os nad yw defnyddwyr yn gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio e-feic, dylid eu cyfeirio at gyfleoedd hyfforddiant beicio. Argymhellir Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol Lefel Dau neu gymhwyster cyfatebol (e.e., Hyfforddiant Beicio Lefel Dau). Mae awdurdodau lleol yn aml yn cynnig y gwasanaethau hyn; gallwch ddod o hyd i'ch sesiynau agosaf ar wefan Bikeability.
- **Bydi beic / teithiau arwain:** Ar gyfer beicwyr hyderus sydd ddim yn teimlo'n hollol sicr o'u gallu, gallai Bydi Beic neu Deithiau Arwain fod yn syniad da, yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol. Mae Bydi Beic yn golygu taith ar y cyd rhwng y defnyddiwr ac aelod o staff neu wirfoddolwr. Mae Teithiau Arwain yn golygu cymryd rhan mewn teithiau wedi'u trefnu ar gyfer nifer o ddefnyddwyr, a'r rheini'n cael eu cydlynu gan staff hyfforddedig. Rhaid sicrhau bod arweinwyr teithiau beic wedi cael hyfforddiant ffurfiol gan sefydliadau cydnabyddedig fel British Cycling neu Cycling UK i leihau risgiau cysylltiedig.
- **Teithiau dan arweiniad menywod:** Mae menywod yn aml yn wynebu rhwystrau unigryw pan mae'n dod i feicio, fel pryderon am ddiogelwch neu deimlo'n ansicr ar eu pen eu hunain. Mae'r teithiau hyn yn cynnig cefnogaeth grŵp, arweiniad ac anogaeth, sy'n gallu meithrin sgiliau a hyder. Maent yn cael eu harwain gan fenywod hyfforddedig sy'n deall y pryderon hyn ac sy'n gallu teilwra'r profiad i fodloni lefel cysur pob cyfranogwr.
- **Sut mae gweithio e-feic:** Yn ogystal â'r gallu i feicio, dylid rhoi cyfarwyddyd clir i ddefnyddwyr ynghylch sut mae'r e-feic yn gweithio. Byddai hyn yn cynnwys sut i droi'r beic ymlaen, sut i weithio'r e-gonsol, y gwahanol osodiadau a gwefru'r batri.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

# Canllawiau ar y camau nesaf

I wella effaith pob benthyciad, rhowch wybodaeth i ddefnyddwyr am y camau nesaf posibl, sy'n cynnwys:

- Gwybodaeth am gynlluniau Beicio i'r Gwaith a phrosesau ymgeisio
- Manylion yswiriant beic
- Argymhellion ar gyfer cloeon diogel
- Cyngor ar drosi e-feiciau a gweithdai ardystiedig

# Monitro defnydd ac adborth

Bydd cadw llygad ar ddefnydd o e-feiciau a chasglu adborth gan ddefnyddwyr yn eich helpu i asesu llwyddiant y cynllun ac yn ddefnyddiol er mwyn gwerthuso'r cynllun. Gall y data hwn fod yn arf pwerus i helpu i wneud cais am gyllid ar gyfer parhau â'r cynllun neu ei ehangu. Sicrhewch fod yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol o unrhyw dracio cyn benthyg beic i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gesglir yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

- **Demograffeg defnyddwyr:** Casglwch wybodaeth am ddefnyddwyr, fel rhywedd, oed, ethnigrwydd, lefel incwm, statws cyflogaeth, a chyfrifoldebau teulu neu ofal. Bydd y dadansoddiad demograffig hwn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd grwpiau amrywiol, yn enwedig poblogaethau sydd ddim yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.
- **Milltiroedd a phwrpas teithiau:** Anogwch y defnyddwyr i gofnodi eu teithiau, yn ogystal â'u pwrpas – er enghraifft, cymudo, danfon plant i'r ysgol neu siopa. Mae'n hawdd i'r defnyddiwr gofnodi'r pellter drwy ddefnyddio dangosfwrdd y beic, sy'n tracio milltiroedd. Fel arall, gellir gosod tracwyr GPS ar feiciau i gasglu data ar

batrymau defnyddio.

Gall hyn helpu i ddeall gwahaniaethau o ran mathau o deithiau a'u hyd, ac ymddygiadau, fel gwneud mwy nag un peth ar un siwrnai – a allai fod yn fwy nodweddiadol o ddynion neu fenywod.

- **Dewis model:** Cofnodwch pa fathau o e-feiciau y mae gwahanol grwpiau'n eu ffafrio, gan nodi nodweddion fel pwysau, y gallu i blygu a'r gallu i gario cargo. Bydd adborth ynghylch a yw modelau penodol (e.e. e-feiciau cargo neu rai ysgafnach) yn diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr yn cefnogi tystiolaeth o'r manteision sy'n gysylltiedig â chynnig amrywiaeth o opsiynau.

- **Diogelwch a theimlo'n gyfforddus:** Casglwch adborth ar ba mor gyfforddus a diogel mae defnyddwyr yn teimlo wrth ddefnyddio e-feiciau, gan roi sylw penodol i ffactorau fel mynd drwy draffig a storio. Gall hyn helpu i dynnu sylw at wahaniaethau rhyweddol o ran diogelwch a gwarchodaeth sy'n aml yn fwy o beth i fenywod.

- **Rhwystrau rhag defnyddio:** Cofnodwch unrhyw heriau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu, gan gynnwys diffyg lle diogel i storio, anawsterau cynnal a chadw, neu argraffiadau diwylliannol sy'n atal grwpiau penodol rhag cymryd rhan. Gall yr adborth hwn ddatgelu rhwystrau strwythurol a helpu gyda'r dasg o lunio strategaethau i wneud cynlluniau'n fwy cynhwysol.

- **Effeithiau ar les corfforol a meddyliol:** Casglwch ddata y mae'r defnyddwyr eu hunain yn ei roi am unrhyw newidiadau mewn iechyd corfforol a lles meddyliol, neu hyder cyffredinol defnyddwyr – gall y canlyniadau hyn fod yn wahanol ar draws y rhywiau. Er enghraifft, nododd y prosiect E-Symud fod menywod yn teimlo'n fwy hyderus a diogel gydag e-feiciau, yn enwedig oherwydd eu bod yn gallu mynd yn gynt.

- **Adborth ansoddol ar fanteision cymdeithasol ac economaidd:** Casglwch adborth ansoddol drwy gyfweliadau neu gwestiynau arolwg penagored am sut mae'r cynllun wedi effeithio ar gysylltiadau cymdeithasol, cyflogaeth a mynediad at

wasanaethau. Gall safbwyntiau am gyllidebu ar sail rhyw fod yn arbennig o werthfawr wrth asesu sut mae gwell mynediad at drafnidiaeth yn cefnogi'r dasg o gydbwyso bywyd a gwaith a rolau gofalu, sy'n gallu effeithio'n anghymesur ar fenywod.

- **Y broses fenthyg:** Ar ôl pob cyfnod benthyg, gofynnwch am adborth gan ddefnyddwyr ar eu profiad, gan gynnwys pa mor hawdd yw archebu, perfformiad y beic, ac unrhyw feysydd y gellid eu gwella.
- **Cadw golwg yn gyson:** Cofiwch gadw golwg yn gyson (ar ganol cyfnod pan fydd e-feic ar fenthyg ac ar ôl hynny) i olrhain sut mae defnyddwyr yn elwa o'r e-feic ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.
- **Astudiaethau achos:** Mae astudiaethau achos yn cynnig tystiolaeth gref ynghylch effeithiolrwydd, ac effaith cynllun e-feiciau. Cofnodwch brofiadau manwl 'bywyd go iawn' sy'n dangos manteision y rhaglen.


©2023, Sustrans, cedwir pob hawl

## Dychwelyd e-feiciau a'u harchwilio

- **Y broses ddychwelyd:** Wrth ddychwelyd y beic, dylai'r defnyddiwr gofrestru â'r staff i sicrhau bod y beic yn cael ei roi'n ôl yn iawn. Dylai staff sicrhau eu bod yn:
    - Cynnal archwiliad diogelwch mecanyddol i asesu cyflwr y beic.
    - Cofnodi nifer y milltiroedd a statws y batri.
    - Edrych a oes unrhyw ddifrod neu ôl traul.
- **Arolwg ar ôl benthyg:** Casglwch unrhyw adborth ychwanegol drwy arolwg ar ôl benthyg er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gwella'r cynllun yn gyson.

# Cynnal a chadw

Mae'n hanfodol sefydlu cysylltiadau cryf â gweithdai beicio lleol. Nid yw pob mecanig wedi'i hyfforddi i drwsio e-feiciau. Dylid gwasanaethu e-feiciau bob chwe mis neu bob 500 milltir. Rhaid i hynny gynnwys:

- Archwiliadau diogelwch
- Gwaith cynnal a chadw ataliol
- Addasiadau i'r brêcs a'r gêrs
- Diweddariadau cadarnwedd yn unol â gofynion yswiriant

Efallai y bydd rhai gweithdai'n cynnig cynlluniau gwasanaeth sy'n gallu bod yn fwy darbodus ac wedi'u teilwra i'ch anghenion penodol chi.

**Cynnal a chadw a pharatoi ar gyfer y defnyddiwr nesaf**

Ar ôl i'r e-feic gael ei ddychwelyd:

- **Gwasanaethu ac atgyweirio:** Trefnwch archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer pob e-feic er mwyn eu cadw yn y cyflwr gorau posibl. Rhowch sylw i unrhyw fân anghenion atgyweirio neu lanhau rhwng cyfnodau llogi.
- **Gwefru batris:** Gwnewch yn siŵr bod y batri wedi'i wefru ac yn barod ar gyfer y defnyddiwr nesaf.
- **Glanhau'r beic:** Glanhewch y beic a sicrhau ei fod yn daclus ac yn barod ar gyfer y defnyddiwr nesaf.



©2024, Katherine Torres Davies, cedwir pob hawl

# Adnoddau eraill ar gyfer buddiolwyr

Sicrhewch y manteision gorau posibl i ddefnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth am lwybrau beicio lleol sy'n cyd-fynd â'u galluoedd a'u dibenion teithio. Dyma rai o'r adnoddau a argymhellir:

1. **Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol:** Rhwydwaith o lwybrau ar gyfer beicio a mwynhau'r awyr agored drwy'r DU gyfan. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn https://www.sustrans.org.uk/national-cycle-network/map/

2. **Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (Cymru):** Mapiau a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol, sydd ar gael yn https://datamap.gov.wales/maps/active-travel-network-maps

3. **Cynlluniwr Siwrnai Cycling UK:** Gallwch greu llwybrau gan ddefnyddio'r adnodd sydd ar gael yn https://www.cyclinguk.org/journey-planner

4. **Trafnidiaeth Cymru:** Gwybodaeth am storio beiciau mewn gorsafoedd trenau https://tfw.wales/ways-to-travel/cycling/bicycle-parking

# Diogelwch ac yswiriant

## Cyflwyniad

Mae e-feiciau'n werthfawr, sy'n golygu eu bod yn dargedau ar gyfer eu dwyn. Mae mynd i'r afael â phryderon diogelwch cyn cychwyn yn hollbwysig.

## Storio'n ddiogel

- **Gartref:** Efallai y byddwch am i ddefnyddwyr storio'r beic yn y tŷ neu mewn man allanol diogel, fel sy'n ofynnol gan yswirwyr. Gall hyn fod yn broblem, yn enwedig wrth weithio gyda defnyddwyr mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog sydd heb fynediad hwylus at storfa ddiogel.
- **Cyfleoedd storio cymunedol:** Efallai y bydd cyfle i weithio gyda'r awdurdod lleol a chymdeithasau tai i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer storfeydd beiciau cymunedol, fel siediau. Mae'r cynllun E-symud sy'n cael ei redeg yn y Fenni ar hyn o bryd yn enghraifft o hyn. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi trefnu man diogel i storio beiciau yng nghanol y dref sy'n rhoi mynediad hawdd i'r swyddog sy'n rhedeg y cynllun a'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo sy'n casglu ac yn dychwelyd beiciau.
- **Yn ystod y cyfnod benthyg:** Rhaid i ddefnyddwyr gloi'r beiciau i strwythur diogel, drwy'r ffrâm. Esboniwch yn glir sut mae cloi beic neu fel arall ni fydd hawliadau yswiriant yn ddilys. Dylai'r cloeon a ddarperir fod o safon uchel addas fel sy'n briodol, a dylent gydymffurfio â gofynion y cwmni yswiriant.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

## Opsiynau yswiriant

- Gweithiwch gydag yswiriwr arbenigol i ddiogelu eich fflyd. Mae cwmnïau fel **Yellow Jersey**, a hyrwyddir gan Cycling UK, yn cynnig opsiynau da.
- Cofrestrwch y beiciau gyda'r **Gofrestr Beiciau**, sef cronfa ddata genedlaethol a ddefnyddir gan yr heddlu i olrhain beiciau sydd wedi'u dwyn. Mae sticeri sydd â manylion adnabod unigryw arnynt yn ffordd dda o gadw beiciau'n ddiogel rhag cael eu dwyn.
- Beth am ystyried tracwyr beiciau fel mesur diogelwch ychwanegol, a ffordd o gasglu data ar ddefnydd beiciau.

## Delio ag achosion o ddwyn neu beidio â dychwelyd beic

Mewn achosion prin, efallai na fydd beic yn cael ei ddychwelyd. Yn achos E-Symud, helpodd cymorth yr heddlu i gael ambell feic yn ôl. Efallai y byddai'n syniad da i chi gymryd blaendal gan ddefnyddwyr fel mesur diogelwch ychwanegol.

## Atebolrwydd cyhoeddus

Gwnewch yn siŵr bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus eich sefydliad yn gwarchod diogelwch y defnyddiwr a'r beic yn ystod y cyfnod pan fydd ar fenthyg. Dylai'r defnyddiwr fod yn gyfrifol am sicrhau diogelwch y beic, ac am feicio mewn ffordd gyfrifol, tra bydd y beic ar fenthyg (e.e. sicrhau bod y brêcs yn gweithio). Eglurwch y cyfrifoldeb hwn yn ystod y sesiynau cynefino ac yn y cytundeb ar gyfer y benthyciad.

# Monitro, gwerthuso a dysgu

## Cyflwyniad

Bydd cofnodi manteision ac effaith eich cynllun benthyg yn eich helpu i ddatblygu eich cynllun a'i addasu er mwyn diwallu anghenion eich cymuned yn well. Bydd hefyd yn darparu data amhrisiadwy i gefnogi cynlluniau yn y dyfodol, yn galluogi cyfleoedd cyllido parhaus ac yn cyfrannu at y ddealltwriaeth genedlaethol o sut i alluogi newid dulliau teithio i ddewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

Pwrpas y bennod hon yw eich helpu i ystyried pa ddulliau monitro a gwerthuso fyddai'n cyfleu effaith eich cynllun chi orau.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

## Prosiect E-Symud Sustrans

Ar gyfer E-Symud, fe wnaethom gasglu gwahanol fathau o ddata i werthuso newidiadau mewn arferion beicio. Roedd pawb a oedd wedi cael benthyg beic wedi cwblhau arolygon cyn ac ar ôl eu benthyciad, ac roedd defnyddwyr dethol wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau. Ar ben hynny, fe wnaethom ddefnyddio GPS i dracio llwybrau a milltiroedd.

**Data ansoddol**

- **Arolygon:** Roedd arolygon cyn ac ar ôl benthyg yn help i fesur newidiadau mewn ymddygiad a barn pobl am deithio.
- **Cyfweliadau:** Roedd cynnal cyfweliadau yn golygu bod modd cael

dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau defnyddwyr.

**Data ansoddol**

- **Dyfeisiau tracio GPS:** Gosodwyd y rhain ar feiciau i fonitro llwybrau a milltiroedd, ond doedden nhw ddim mor ddibynadwy â'r disgwyl.
- **Cofnod milltiroedd:** Roedd dangosfyrddau'r e-feiciau'n cofnodi milltiroedd dechrau a gorffen ac roeddent yn ddewis amgen dibynadwy.

Cafodd data o gyfrifiad 2021 ei groesgyfeirio â demograffeg buddiolwyr y prosiect E-Symud i asesu i ba raddau oedd y prosiect yn gynrychioladol o'r boblogaeth leol. Addaswyd y prosiect yn seiliedig ar y safbwyntiau a gafwyd, gyda phwyntiau cadw golwg yn cael eu cynnwys yn y cylch bywyd i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg.

**Gwerthuso**

Bydd gwerthusiad yn eich galluogi i ddefnyddio'r data rydych chi wedi'i gasglu i asesu a yw'r amcanion a osodwyd ar gyfer y cynllun wedi cael eu cyflawni. Mae gwerthusiad hefyd yn gyfle i ystyried manteision ehangach y cynllun.

Fel rhan o'r broses o werthuso'r prosiect E-Symud, llwyddodd Sustrans i gasglu adborth gan ddefnyddwyr, a hynny drwy weithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau a oedd yn cefnogi ffoaduriaid ac aelwydydd incwm isel. Roedd y canlyniadau'n dangos bod y cynllun wedi cyrraedd grwpiau a oedd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol. Roedd amrywiaeth y prosiect o fodelau e-feiciau, gan gynnwys beiciau ysgafn ac opsiynau plygu, yn mynd i'r afael ag anghenion penodol menywod, rhieni ac unigolion gydag ond hyn a hyn o le i storio, a oedd yn annog defnydd mwy cynhwysol. Ar ben hynny, dywedodd cyfranogwyr, yn enwedig menywod, eu bod yn teimlo'n fwy diogel ar e-feiciau, a oedd yn eu galluogi i ddal i fyny â thraffig a dewis llwybrau mwy diogel, gan wella eu hyder cyffredinol a'u parodrwydd i gymryd rhan.

Drwy ymgorfforri gwybodaeth fel hyn, bydd gwerthusiad yn darparu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan helpu i lunio prosiectau yn y dyfodol. Dylid rhannu canfyddiadau'n eang i gefnogi cymunedau eraill i ddatblygu neu gynnal cynlluniau tebyg, gan helpu i adeiladu ar yr hyn sy'n llwyddiannus ac osgoi heriau sy'n codi dro ar ôl tro.



©2024, Katherine Torres Davies, cedwir pob hawl

# Ewch amdani

Mae lansio cynllun benthyg e-feiciau yn gyfle cyffrous i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a chost isel yn eich cymuned, gan fynd i'r afael â materion allweddol fel tlodi trafnidiaeth, mynediad at gyflogaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol. Drwy gynllunio pob cam yn ofalus – o ddeall anghenion lleol a sicrhau cyllid i gyflwyno system archebu hwylus a chynnwys eich cymuned – gallwch greu cynllun sy'n dwyn manteision gwirioneddol a pharhaol.

Nawr, gyda gweledigaeth glir, cynllun cadarn, a chefnogaeth gref gan randdeiliaid, mae'n amser i chi ddod â'ch prosiect yn fyw. Drwy flaenoriaethu cynhwysiant, sicrhau effeithlonrwydd gweithredol, a chynnal trefniadau cyfathrebu cryf, byddwch yn darparu cynllun e-feiciau llwyddiannus sy'n gwella symudedd, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn meithrin cymuned iachach a mwy cysylltiedig. Bydd eich ymdrechion nid yn unig yn cyfrannu at wella bywydau unigolion, bydd hefyd yn helpu i greu dyfodol mwy cynaliadwy i bawb.



©2021, Jonathan Bewley, cedwir pob hawl

# Atodiadau

## Astudiaethau achos

**Becws Cymunedol y Rhyl**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/becws-cymunedol-or-rhyl-yn-elwa-o-brosiect-e-feiciau/

**Taith Ceri**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/taith-ceri-i-arbedion-cost-hyder-a-lles-gydag-e-feiciau/

**Stori Hannah**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/mynd-i-r-afael-ag-anghydraddoldebau-iechyd-yn-fy-nghymuned-trwy-deithio-llesol-stori-hannah/

**Stori Gemma**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/stori-gemma-sut-mae-e-feiciau-wedi-newid-teithio-ein-teulu/

**Stori Mark**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/roedd-defnyddio-e-feic-yn-rhoir-hwb-ffitrwydd-a-hyder-yr-oeddwn-ei-angen-stori-mark/

**Stori Tim**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/newid-i-deithio-cynaliadwy-yng-ng-hefn-gwlad-cymru-stori-tim/

**Amaeth Cymunedol**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/sut-mae-prosiect-amaeth-cymunedol-wedi-elwa-o-brosiect-e-feicio/

**Busnes Aberystwyth**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/sut-helpodd-prosiect-e-feic-sustrans-un-o-drigolion-aberystwyth-i-ddechrau-busnes-ymarfer-corff-a-gwirfoddolwr/

**Cymudo drwy Esiampl**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/cymudo-drwy-esiampl-pennaeth-go-gledd-cymru-yn-cymryd-lle-car-gydag-e-feic/

**Mark Drakeford a Theithio Iach**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/mark-drakeford-yn-dewis-cyfnewid-y-car-am-e-feic-gyda-chymorth-sustrans/

**Beic Chai Sally**
https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/straeon-personol/y-busnes-argefn-beic-yn-ab-erystwyth-gydag-uchelgeisiau-mawr/

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Sustrans Cymru sustranscymru@sustrans.org.uk